

**Cyfeirnod:** IR771

**Dyddiad cyhoeddi:** 3 Chwefror 2021

## Telegyfathrebiadau a Rhwydweithiau

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 8 Ionawr lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am delegyfathrebiadau a rhwydweithiau.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

### **Contract 1**

**1. Llinellau Cyfredol/Gwasanaethau Llais (Analog, ISDN VOIP, SIP ac ati) Darparwr - A allwch chi roi enw'r cyflenwr ar gyfer y contract i mi.**

Gamma Telecom Ltd

**2. Llinell Sefydlog - Dyddiad Adnewyddu'r Contract - rhowch ddiwrnod, mis a blwyddyn os gwelwch yn dda (mae mis a blwyddyn hefyd yn dderbyniol). Os yw hwn yn gontract treiglol, rhowch ddyddiad treigl y contract i mi. Os oes mwy nag un cyflenwr rhannwch y dyddiadau adnewyddu i faint bynnag o gyflenwyr**

1/2/2023)

**3. Llinell Sefydlog - Hyd y Contract - nifer y blynyddoedd y mae'r contract ar gyfer pob darparwr**

2 flynedd, gellir ei ymestyn dwywaith am 12 mis bob tro gan wneud uchafswm posibl o 4 blynedd

**4. Math o Linell - A allwch chi rannu'r math o linellau yn ôl cyflenwr? PSTN, Analog, SIP**

335 o rifau ffôn deialu uniongyrchol wedi'u cysylltu â Microsoft Teams trwy wasanaeth "llwybro uniongyrchol"

**5. Math o Linell - A allwch chi rannu'r math o linellau yn ôl cyflenwr? Sianeli SIP, Llinellau PSN, Llinellau Analog**

Fel uchod

**Contract 2 - Amh i bob cwestiwn, a gwmpesir o dan gontract 1 uchod**

**6. Munudau/Darparwr Llinell Dir - Enw'r cyflenwr (NID Ffonau symudol) os nad oes gwybodaeth ar gael, a allwch chi roi cipolwg ychwanegol ynglŷn â pham?**

**7. Munudau/Llinell Sefydlog - Dyddiad Adnewyddu'r Contract - rhowch ddiwrnod, mis a blwyddyn os gwelwch yn dda (mae mis a blwyddyn hefyd yn dderbyniol). Os yw hwn yn gontract treiglol, rhowch ddyddiad treigl y contract i mi.**

**8. Gwariant Misol ar Funudau Llinell Dir - Gwariant cyfartalog misol ar alwadau ar gyfer pob darparwr. Mae amcangyfrif neu gyfartaledd yn dderbyniol.**

**9. Hyd Contractau Llinellau Tir: nifer y blynyddoedd y mae'r contract gyda'r cyflenwr.**

**10. Nifer yr Estyniadau - Nodwch nifer yr estyniadau ffôn sydd gan y sefydliad ar hyn o bryd. Mae amcangyfrif neu gyfartaledd yn dderbyniol.**

**Contract 3**

**11. Darparwr Band Eang Sefydlog - Enw'r cyflenwr os nad oes gwybodaeth ar gael, a allwch chi roi rhagor o wybodaeth ynglŷn â pham?**

BT

**12. Dyddiad Adnewyddu'r Contract dros Fand Eang Sefydlog - rhowch ddiwrnod, mis a blwyddyn os gwelwch yn dda (mae mis a blwyddyn hefyd yn dderbyniol). Os yw hwn yn gontract treiglol, rhowch ddyddiad treigl y contract i mi. Os oes mwy nag un cyflenwr rhannwch y dyddiadau adnewyddu i faint bynnag o gyflenwyr**

Term isafswm allan o gontract, sydd bellach yn gontract treiglol lle gellir canslo pob llinell ar ôl mis o rybudd

**13. Gwariant Cyfartalog Blynyddol ar Fand Eang Sefydlog - Gwariant cyfartalog blynyddol ar gyfer pob darparwr band eang. Mae amcangyfrif neu gyfartaledd yn dderbyniol.**

Amcangyfrif: Tua 20 llinell ar rent oddeutu £20 y mis gan roi cyfanswm blynyddol o £4,800

#### **Contract 4**

**14. Darparwr WAN - rhowch y prif gyflenwr/gyflenwyr i mi os nad oes gwybodaeth ar gael, a allwch chi roi cipolwg ychwanegol ynglŷn â pham?**

Contract fframwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA), a ddarperir ar hyn o bryd gan BT

**15. Dyddiad Adnewyddu Contract WAN - rhowch ddiwrnod, mis a blwyddyn (mae mis a blwyddyn hefyd yn dderbyniol). Os yw hwn yn gontract treiglol, rhowch ddyddiad treigl y contract i mi. Os oes mwy nag un cyflenwr rhannwch y dyddiadau adnewyddu i faint bynnag o gyflenwyr**

Ewch i [www.psba.llyw.cymru](http://www.psba.llyw.cymru) i gael gwybodaeth am PSBA

**16. Disgrifiad o'r Contract: A allech roi disgrifiad byr i mi o'r contract**

Ewch i [www.psba.llyw.cymru](http://www.psba.llyw.cymru) i gael gwybodaeth am PSBA

**17. Nifer y safleoedd: Nodwch nifer y safleoedd y mae'r WAN yn eu cwmpasu. Bydd amcangyfrif yn gwneud y tro.**

6 safle

**18. Gwariant Cyfartalog Blynyddol ar WAN - Gwariant cyfartalog blynyddol ar gyfer pob darparwr WAN. Mae amcangyfrif neu gyfartaledd yn dderbyniol.**

Amcangyfrif: £30,000 y flwyddyn

**19. Ar gyfer pob contract WAN, a allwch roi gwybodaeth i mi am sut y cafodd hyn ei gaffael, yn enwedig o ran y dulliau caffael a ddefnyddiodd fframweithiau, rhowch gyfeirnod y fframwaith i mi.**

Ewch i [www.psba.llyw.cymru](http://www.psba.llyw.cymru) i gael gwybodaeth am PSBA

**20. Cyswllt Mewnol: a allwch anfon manylion cyswllt llawn ataf gan gynnwys rhif cyswllt ac e-bost a theitl swyddi ar gyfer yr holl gontractau uchod.**

*Rheolir pob contract gan ein Hadran Gwasanaethau Busnes yn Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, [Gwasanaethau.Busnes@archwilio.cymru](mailto:Gwasanaethau.Busnes@archwilio.cymru), 02920 320500. Gellir cyfeirio ymholiadau at Bennaeth Gwasanaethau Busnes.*

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth